Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

Cwrt Linden
Clos Ilex Llanisien
Caerdydd CF14 5DZ
Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163
www.hefcw.ac.uk

Linden Court
Ilex Close Llanishen
Cardiff CF14 5DZ
Tel 029 2076 1861
Fax 029 2076 3163
www.hefcw.ac.uk

Cylchlythyr Circular

Achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru: Gweithdrefnau diwygiedig

Dyddiad:	04 Ionawr 2012	
Cyfeirnod:	W12/02HE	
At:	Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru	
Ymateb erbyn:	Does dim angen ymateb	
Cyswllt:	Enw:	Alison Allan
	Ffôn:	029 2068 2223
	Ebost:	alison.allan@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru sy'n effeithiol o flwyddyn academaidd 2011/12 ymlaen.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein, mewn print mawr, mewn Braille, ar CD ac ar CD a chasét sain. Os hoffech chi neu rywun arall ei chael mewn fformat arall, cysylltwch â ni drwy ffonio (029) 2068 2225 neu e-bostiwch info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1 Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) yng Nghymru sy'n effeithiol o flwyddyn academaidd 2011/12 ymlaen (Atodiad A).

Cefndir

2 O dan reoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, gall Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) achredu sefydliadau fel darparwyr HCA i athrawon ysgol. Gallwn ond achredu sefydliadau fel darparwyr HCA sy'n bodloni meini prawf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

3 Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg uwch (SAUau) sy'n darparu HCA yng Nghymru gael achrediad gan CCAUC er mwyn rhedeg cyrsiau HCA sy'n caniatáu i'w myfyrwyr ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC).

4 Gall CCAUC dynnu'r achrediad yn ôl oddi wrth ddarparwr HCA lle y ceir tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achrediad.

5 Er mwyn i ni gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, mae gan CCAUC weithdrefnau ar waith ar gyfer achredu darparwyr HCA ac mae'n diweddaru'r rhain o bryd i'w gilydd fel y bo'r angen. Yn 2007/08 gwnaethom ymgynghori ar y gwaith sylweddol o adolygu ein gweithdrefnau, gan gyhoeddi'r gweithdrefnau diwygiedig ym mis Mai 2008 (Cylchlythyr W08/17HE) ar gyfer:

- Achredu darparwyr newydd
- Cadarnhau cydymffurfiaeth gan ddarparwyr achrededig cyfredol
- Mynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth a thynnu achrediad yn ôl.

Gweithdrefnau diwygiedig 2011

6 Ers 2008, bu nifer o newidiadau sydd wedi ei gwneud yn briodol i ni ddiweddaru ein gweithdrefnau. Mae tair Canolfan Addysg Athrawon wedi cael eu sefydlu, ac mae'r gwaith o gydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer achrediad yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng dau bartner addysg uwch ym mhob Canolfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno safonau SAC diwygiedig ac yn 2010 cyflwynodd Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yng Nghymru (Estyn), y mae ei chyfrifoldebau'n cynnwys arolygu HCA yng Nghymru, Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd.

7 Rydym wedi diweddaru'r gweithdrefnau i adlewyrchu'r newidiadau hyn a'r fframwaith ddeddfwriaethol gyfredol y mae cyfrifoldebau achredu CCAUC yn deillio ohono. Mae'r rhain yn newidiadau ffeithiol, yn hytrach nag yn welliannu o sylwedd i'r gweithdrefnau eu hunain.

Felly nid ydym wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaethom gysylltu â phenaethiad adrannau HCA i amlinellu'r newidiadau roeddem yn eu cynnig er mwyn rhoi'r cyfle i ddarparwyr godi unrhyw bryderon.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

8 Gan fod y newidiadau i'r gweithdrefnau achredu yn rhai ffeithiol nid ydym wedi ymgymryd ag asesiad newydd o effaith y gweithdrefnau ar gydraddoldeb. Mae'r gweithdrefnau'n parhau i bwysleisio (2.4) bod rhaid i ddarparwyr, wrth gyflenwi HCA yn unol â'r meini prawf achredu, sicrhau eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n bodloni eu cyfrifoldebau statudol i staff a myfyrwyr, a hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer HCA sy'n cael eu hadlewyrchu yn y gweithdrefnau achredu yn cynnwys:

"Bod darparwyr yn dangos sail resymegol sy'n argyhoeddi ar gyfer darparu HCA sy'n:

- cefnogi neu'n ychwanegu at yr amrywiaeth o ddewis sydd ar gael neu'n denu ceisiadau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn y proffesiwn dysgu."

Felly bydd hyn yn cael ei gynnwys yn unrhyw asesiad o gais i CCAUC am achrediad a chydymffurfiaeth barhaus.

Amserlen

9 Mae'r gweithdrefnau diwygiedig yn effeithiol o flwyddyn academaidd 2011/12 ymlaen. Maent yn seiliedig ar ofynion cyfredol Llywodraeth Cymru a threfniadau cyfredol Estyn ar gyfer arolygu darparwyr HCA. Byddwn yn parhau i adolygu'r gweithdrefnau o bryd i'w gilydd fel y bo'n briodol. Rhwng yr adegau adolygu, dylid tybio bod gofynion diweddaraf Llywodraeth Cymru neu Estyn yn berthnasol oni nodir yn wahanol.

Gwybodaeth bellach

10 I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch ag Alison Allan (ffôn 029 2068 2223, ebost alison.allan@hefcw.ac.uk).